# Y PWYLLGOR ARCHWILIO

## AC(2) 06-04(min)

## COFNODION

| | |
|---|---|
| **Dyddiad:** | **15 Gorffennaf 2004** |
| **Amser:** | **9.30am tan 12.30pm** |
| **Lleoliad:** | **Ystafelloedd Pwyllgora 3 a 4, Bae Caerdydd** |

| **Aelodau** | **Yn bresennol** |
|---|---|
| Janet Davies (Cadeirydd) | Gorllewin De Cymru |
| Leighton Andrews | Y Rhondda |
| Mick Bates | Sir Drefaldwyn |
| Alun Cairns | Gorllewin De Cymru |
| Jocelyn Davies | Dwyrain De Cymru |
| Christine Gwyther | Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro |
| Denise Idris-Jones | Conwy |
| Val Lloyd | Dwyrain Abertawe |
| David Melding | Canol De Cymru |
| Carl Sargeant | Alun a Glannau Dyfrdwy |

**Tystion**

| | |
|---|---|
| Syr Jon Shortridge | Ysgrifennydd Parhaol, Cynulliad Cenedlaethol Cymru |
| David Richards | Prif Swyddog Cyllid, Cynulliad Cenedlaethol Cymru |
| Emyr Roberts | Prif Weithredwr, Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru |
| Helen Usher | Pennaeth yr Is-adran Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol, Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru |

**Swyddogion**

| | |
|---|---|
| Syr John Bourn | Archwilydd Cyffredinol Cymru |
| Gillian Body | Y Swyddfa Archwilio Genedlaethol |
| Ceri Thomas | Swyddfa Gydymffurfiaeth y Cynulliad |

**Ysgrifenyddiaeth**

| | |
|---|---|
| Siwan Davies | Clerc y Pwyllgor |

Liz Wilkinson Dirprwy Glerc y Pwyllgor

## Eitem 1: Cyflwyniadau, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

1.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau, y tystion a'r cyhoedd i'r cyfarfod.

1.2 Cafwyd ymddiheuriadau oddi wrth Mark Isherwood. Roedd David Melding yn dirprwyo ar ei ran.

1.3 O ran eitem 2, datganodd Leighton Andrews fuddiant gan fod ei wraig yn Gyfarwyddwr BT Cymru a Gwell Busnes Cymru, a datganodd Mick Bates fuddiant fel Cyfarwyddwr cwmni a wnaeth gais am arian o Gronfeydd Strwythurol yr Undeb Ewropeaidd.

## Eitem 2: Cronfeydd Strwythurol yr Undeb Ewropeaidd: Hynt y gwaith o sicrhau'r manteision i Gymru

2.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Syr Jon Shortridge, Ysgrifennydd Parhaol, Cynulliad Cenedlaethol Cymru, David Richards, Prif Swyddog Cyllid, Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Emyr Roberts, Prif Weithredwr, Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru a Helen Usher, Pennaeth Is-adran Gwasanaethau Corfforaethol a Chyllid, Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru.

2.2 Atodir trawsgrifiad gair-am-air yn Atodiad 1 y cofnodion hyn.

Gweithredu

Bydd WEFO yn darparu nodyn i'r Pwyllgor yn rhoi'r wybodaeth a ganlyn ar hygyrchedd arian cyfatebol;

- nifer y cronfeydd allweddol ar gyfer adfywio economaidd cymunedol, gan gynnwys y rhai a weinyddir gan awdurdodau lleol, a faint o'r awdurdodau lleol perthnasol y mae hyn yn eu cynnwys; a

- nifer y sefydliadau sydd wedi cael arian o dan raglen Amcan 3 yn sgil llacio'r gofyniad ar i'r sector cyhoeddus roi 10 y cant o arian cyfatebol, yn arbennig sefydliadau yn y sectorau gwirfoddol a phreifat.

Ar sail y wybodaeth honno, bydd WEFO yn ystyried materion yn ymwneud â hygyrchedd arian cyfatebol ar gyfer adfywio economaidd cymunedol, yn arbennig ar gyfer Amcan 3, a rhoi gwybod i'r Pwyllgor am unrhyw broblemau a'r camau y mae angen eu cymryd i ddatrys hynny.

Cafodd y Pwyllgor egwyl o 10.42am tan 11.00am, ac yna parhawyd â'r sesiwn dystiolaeth.

**Eitem 3: Ymateb Llywodraeth Cynulliad Cymru i adroddiad y Pwyllgor Archwilio, ‘Taliadau Hwyr i Ffermwyr yng Nghymru’**

3.1 Dywedodd yr Archwilydd Cyffredinol fod Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi derbyn pob un o argymhellion adroddiad y Pwyllgor ac eithrio argymhelliad 4, a dderbyniwyd yn rhannol.

3.2 Cytunodd y Pwyllgor i dderbyn ymateb Llywodraeth Cynulliad Cymru i’r adroddiad, ond byddai’n gofyn am y newyddion diweddaraf ar ganlyniad adolygiad Llywodraeth y Cynulliad o’r lefelau digolledu cyfredol, a gynhelir yng nghyfarfod nesaf holl adrannau amaeth y DU yn nes ymlaen yn 2004.

Pwynt gweithredu

Byddai’r Cadeirydd yn ysgrifennu at y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad i ofyn am y diweddaraf ar ganlyniad yr adolygiad o lefelau digolledu cyfredol – Cadeirydd, Gwasanaeth y Pwyllgor.

**Eitem 4: Ymateb Llywodraeth Cynulliad Cymru i adroddiad y Pwyllgor Archwilio, ‘Adnewyddu Tai y Sector Preifat yng Nghymru’**

4.1 Dywedodd yr Archwilydd Cyffredinol fod Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi ymateb yn gadarnhaol i argymhellion y Pwyllgor, yn arbennig felly’r argymhellion yn ymwneud â pherygl twyll a darparu’r grant cyfleusterau i’r anabl yn effeithiol. Roedd wedi ymrwymo i roi’r diweddaraf ar yr arolwg tai cenedlaethol a hynt y gwaith o reoli risgiau a nodwyd yn adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol. Byddai’r Archwilydd Cyffredinol yn adrodd yn ôl i’r Pwyllgor wedi i’r diweddariadau hynny ddod i law.

4.2 Cytunodd y Pwyllgor i dderbyn ymateb Llywodraeth Cynulliad Cymru i’w adroddiad.

**Eitem 5: Cofnodion y cyfarfod diwethaf**

4.1 Cymeradwyodd y Pwyllgor gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 17 Mehefin 2004.

Penderfynodd y Pwyllgor wahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod yn unol â Rheol Sefydlog 8.21(vi).

**SESIWN BREIFAT**

**Eitem 6: Ystyried adroddiadau drafft y Pwyllgor ‘Rheoli Absenoldeb Oherwydd Salwch gan Ymddiriedolaethau’r GIG yng Nghymru’ a ‘Rheoli’r Casgliadau yn Amgueddfeydd ac Orielau Cenedlaethol Cymru’**

6.1 Cymeradwyodd y Pwyllgor ei adroddiadau ‘Rheoli Absenoldeb Oherwydd Salwch gan

Ymddiriedolaethau'r GIG yng Nghymru' a 'Rheoli'r Casgliadau yn Amgueddfeydd ac Orielau Cenedlaethol Cymru'.

6.2 Nododd y Pwyllgor y byddai'r Pwyllgor Diwylliant yn ystyried ymateb y Llywodraeth i'w adroddiad 'Rheoli'r Casgliadau yn Amgueddfeydd ac Orielau Cenedlaethol Cymru' yn nhymor yr hydref, a byddai'n annog y pwyllgorau pwnc eraill i ystyried ei adroddiadau.